# Gwylio'r Tŵr



**Fe fuodd Miriam Elin Jones, blogiwr ac adolygydd, yn gwylio Y Tŵr gan Gwenlyn Parry yn Aberystwyth nos Lun, gan roi ei sylwadau i Non Tudur wedyn.**

"Rhaid i mi gyfaddef, roedd hi'n ddrama bwerus iawn ac roedd fy ffrind a oedd gyda fi yn crio ar y diwedd.

Ro'n i wedi fy synnu o ystyried ei fod yn gwmni mor ifanc. Mae **Y Tŵr** yn gymaint o glasur felly mae'n ddewis eithaf dewr. Roedd y ddau actor (Catherine Ayers a Steffan Donnelly) yn gweithio'n wych gyda'i gilydd.

Fe wnes i synnu sut ro'n nhw'n gallu gwneud tair cenhedlaeth, a thyfu trwy'r ddrama... heb wneud gormod o ffŷs chwaith. Ro'n nhw'n argyhoeddi heb fod angen iddyn nhw wynnu eu gwallt na dim byd fel'na. Roedd eu hosgo yn newid drwy'r ddrama.

Roedd Steffan Donelly yn arbennig yn crebachu, heb fod yn hollol gefngrwm chwaith. Doedd e ddim yn ei ei gorwneud hi. Roedd yn *subtle* iawn.

Fe gefais fy mhlesio. Roedd hi'n ddrama wych. Cefais fy synnu ar yr ochr orau gyda'r perfformiad. Do'n i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl a dw i'n credu bod hynny'n rhan o gwmni newydd, a doeddwn i ddim wedi darllen y ddrama chwaith, felly ro'n i'n gwbl feddwl agored ...

Ro'n i'n meddwl ei bod hi'n stori digon oesol, a thema oesol iddi o ran tyfu a natur perthynas.

Byddwn i'n argymell **Y Tŵr** yn bendant, a dw i'n edrych ymlaen at beth maen nhw'n mynd i'w wneud nesaf."

## STŴR DROS ISDEITLAU SAESNEG

Roedd cwestiynau wedi cael eu codi am benderfyniad y cwmni o Lundain, Invertigo, i ddefnyddio uwchdeitlau Saesneg.

Roedd y darlithydd Cymraeg, Simon Brooks, er enghraifft wedi cwyno ar Twitter gan ddweud: "Wrth gwrs caiff fod yn ddwyieithog yn Llundain. Ond hoffwn weld y cynhyrchiad yn fy theatr leol heb uwchdeitlau."

Ond yn ôl Mirian Elin Jones doedd y sgriniau ddim ym amharu ar y ddrama yng Nghanolfan Gelfyddydau Aberystwyth.

"I fod yn onest, do'n i ddim yn meddwl bod eu sgrîn nhw yn amlwg iawn. Petawn i'n ddysgwr wedi mynd -yn dibynnu ar fy sedd, sa' i'n credu y bydden i o reidrwydd wedi gweld yr uwchdeitlau o gwbl. Wnes i ddim sylwi arnyn nhw.

"Dw i wedi bod i weld perfformiadau eraill lle'r oedden nhw'n fwy amlwg ac yng nghornel y llygad. Gyda'r **Tŵr**, roedd y sgrîn yn fach, fach ar gyfer yr uwchdeitlau.

"Mae'n neis ein bod ni'n agor drysau, a bod pobol Saesneg yn gallu dod i weld theatr Gymraeg. Mae'n ehangu apêl y Gymraeg mewn ffordd.

"Ond sa' i'n gweld uwchdeitlau Cymraeg i ddysgwyr Cymraeg o reidrwydd yn gweithio – os 'yn nhw'n ei wneud e i ddangos geirfa yna mae hynny'n mynd i ddenu sylw. Efallai bod rhywbeth fel app yn fwy handi na chael uwchdeitlau Cymraeg."

**Y TŴR (CWMNI INVERTIGO)**
**Canolfan Chapter, Caerdydd**, Ionawr 27 a 31 ac ar daith tan Chwefror 8